BTPA British Transport Police Authority

HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG
BRITISH TRANSPORT POLICE

# Strategaeth BTP 2026-2029

## Gwarcheidwaid y Rheilffordd – Yn Canolbwyntio ar eich Diogelwch



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair y Cadeirydd | 3 |
| Rhagair y Prif Gwnstabl | 4 |
| Amdanom ni | 5 |
| Ein Hamcanion Strategol | 6 |
| Ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig | 8 |
| Ein Glasbrint ar gyfer Cyflawni | 9 |




# Rhagair y Cadeirydd

Mae'n bleser gennyf rannu ein *Strategaeth Gwarcheidwaid y Rheilffyrdd 2026–2029* gyda chi. Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y bydd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'i Awdurdod yn cydweithio i ddarparu rhwydwaith rheilffyrdd diogel, sicr a dibynadwy i'r miliynau o deithwyr a gweithwyr sy'n dibynnu arno bob dydd. Mae llawer o'n partneriaid – mewn diwydiant, llywodraeth, plismona – yn ogystal â'n pobl ein hunain – wedi ein helpu i greu'r strategaeth hon a'i glasbrint cyflawni cysylltiedig. Diolch i'r rhai sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith hwn.

Mae'r cyd-destun yr ydym yn plismona ein rheilffordd ynddo yn newid a bydd yn newid eto dros y cyfnod y mae'r strategaeth hon yn ei gwmpasu. Mae diwygio rheilffyrdd y DU yn dechrau ar gyfnod pendant, gyda'r sector yn symud tuag at system fwy unedig, sy'n canolbwyntio ar y teithwyr. Bydd pobl sy'n defnyddio'r rheilffordd yn disgwyl gweld system reilffordd sy'n deall eu hanghenion ac yn ymateb iddynt, gan gynnwys ym maes plismona a diogelwch. Mae cynllun Llywodraeth y DU ar gyfer diwygio'r system blismona yng Nghymru a Lloegr yn prysuro. Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn rhan o system blismona genedlaethol sy'n gofyn am gydweithio agos â phartneriaid cenedlaethol a lleol, a bydd llawer o'r partneriaid hyn yn edrych yn eithaf gwahanol erbyn 2029.

Drwy'r holl newid hwn, bydd y cyhoedd yn disgwyl yn briodol i'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig barhau i wneud y gwaith gorau posibl i'w cadw'n ddiogel.

Y pum amcan strategol a nodir yn y tudalennau canlynol - mynd i'r afael â niwed difrifol; lleihau aflonyddwch; integreiddio plismona a diogelwch rheilffyrdd; gyrru cynhyrchiant drwy arloesi; ac adeiladu gweithlu modern a galluog - yn darparu fframwaith clir ar gyfer cyflawni hyd at 2029. Cefnogir pob amcan gan gyflyrau diffiniedig i'r dyfodol. Mae hwn yn ymrwymiad gwirioneddol gan yr heddlu a'i Awdurdod i'r rhai sy'n gweithio ar y rheilffordd ac yn ei defnyddio, ac rydym yn disgwyl cael ein dwyn i gyfrif am y gwaith o'i gyflawni.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda fy nghydweithwyr ar draws yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, ein partneriaid ar draws y diwydiant rheilffyrdd, a'r gymuned blismona ehangach i gyflawni'r uchelgais hon - gan gydweithredu fel gwir warcheidwaid y rheilffordd.



**Tricia Hayes**
Cadeirydd

**E-bost**
patricia.hayes@btp.police.uk

**Dilynwch**
@BTPAuthority



# Rhagair y Prif Gwnstabl

Rwy'n falch o gyflwyno ein *Strategaeth Gwarcheidwaid y Rheilffyrdd 2026 i 2029*. Am y tro cyntaf, mae'r sicrwydd o setliad ariannol tair blynedd yn sail i'n strategaeth. Mae'r sefydlogrwydd hwn yn rhoi cyfle hanfodol inni gynllunio'n hyderus, cyflymu gwelliant a buddsoddi ar gyfer y tymor hir lle gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf.

Mae'r strategaeth hon yn gosod cyfeiriad clir gyda ffocws ar gyfer y tair blynedd nesaf ac mae'n darparu sylfaen gref ar gyfer y dyfodol. Mae ein pwrpas yn syml ac yn barhaol: amddiffyn pobl, atal niwed a chadw'r rheilffordd i symud. Byddwn yn cyflawni hyn drwy bartneriaeth agos â'r diwydiant rheilffyrdd, y Llywodraeth a phartneriaid plismona, gan gefnogi rheilffordd ddiogel a dibynadwy i bawb sy'n ei defnyddio neu'n gweithio arni.

Mae'r amgylchedd o'n cwmpas yn newid yn gyflym. Mae diwygio'r rheilffyrdd yn ail-ffurfio'r ffordd y mae'r rhwydwaith yn gweithredu, gyda'r broses diwygio plismona yn cymell disgwyliadau uwch o ran safonau, effeithlonrwydd a hyder y cyhoedd. Fel yr unig heddlu cenedlaethol sy'n gwasanaethu Cymru, Lloegr a'r Alban, rhaid i ni barhau i addasu, arloesi ac arwain. Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y byddwn yn gwneud hynny.

Wrth wraidd y strategaeth mae pum amcan strategol: mynd i'r afael â niwed difrifol; lleihau aflonyddwch; integreiddio plismona a diogelwch; gyrru cynhyrchiant drwy arloesi; a datblygu gweithlu modern a galluog. Wrth wraidd pob amcan mae cyflwr clir i'r dyfodol a chaiff ei gyflawni drwy Lasbrint ein sefydliad, a fydd yn arwain atebolrwydd a chynnydd hyd at 2029.

Yn ganolog i'r cynllun hwn mae buddsoddiad mawr mewn plismona rheng flaen. Byddwn yn recriwtio swyddogion ychwanegol i gryfhau gallu, gwella cydnerthedd gweithredol a chau'r bylchau critigol yn y cyflenwad. Rydym wedi ymrwymo i leihau aflonyddwch a chadw'r rheilffordd i redeg fel y gellir gwireddu uchelgeisiau'r Llywodraeth ar gyfer rheilffordd Prydain Fawr yn llawn.

Rydym hefyd yn cryfhau ein hymateb i drais yn erbyn menywod a merched drwy greu tasglu pwrpasol. Bydd hyn yn arwain at ddatrys mwy o droseddau, diogelu cryfach a mwy o hyder i ddioddefwyr a'r cymunedau sy'n dibynnu arnom.

Byddwn yn parhau i gyflymu ein rhaglen drawsnewid i foderneiddio'r ffordd rydym yn gweithio, gwella ein cynhyrchiant a'r gwasanaeth a ddarparwn i'r cyhoedd a'r diwydiant rheilffyrdd. Bydd hyn yn cynnwys mwy o ddefnydd o awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial, tystiolaeth wedi'i lleoli ar y cwmwl, ffeiliau achos digidol, porth hunanwasanaeth i ddioddefwyr, ac ehangu ein rhaglen dronau Tu Hwnt i'r Llinell Weld (Beyond Visual Line of Sight yn Saesneg).

Mae'r rheilffyrdd yn parhau i fod yn un o'r amgylcheddau cyhoeddus mwyaf diogel yn y wlad, ac rwy'n hynod falch o'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Gydag ymroddiad ein swyddogion a'n staff, a thrwy bartneriaeth gref â'r diwydiant rheilffyrdd, Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, y Llywodraeth a chydweithwyr gorfodi'r gyfraith, rwy'n hyderus y byddwn yn darparu gwasanaeth heddlu arbenigol modern, dibynadwy ac uchel ei berfformiad ac y byddwn yn parhau i fod yn wir warcheidwaid i reilffyrdd Prydain.



**Lucy D'Orsi CVO QPM**
Prif Gwnstabl

**E-bost**
Lucy.Dorsi@btp.police.uk

**Dilynwch**
@BTPChief

# Amdanom ni

Yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yw'r heddlu arbenigol ac ymroddedig ar gyfer rheilffyrdd Prydain. Mae'n darparu gwasanaeth i bob gweithredwr cludiant teithwyr a nwyddau, eu staff a'u cwsmeriaid ledled Cymru, Lloegr a'r Alban; mae'n plismona Trenau Tanddaearol Llundain, Rheilffordd Gul y Docklands, system tramiau Midland Metro, Croydon Tramlink, Metro Sunderland a Rheilffordd Danddaearol Glasgow.

## EIN GWELEDIGAETH

Heddlu o'r radd flaenaf yr ymddiriedir ynddo i ddarparu rheilffordd ddiogel a dibynadwy.

## EIN CENHADAETH

Cydweithio i ddiogelu cymuned y rheilffyrdd, gan greu amgylchedd gelyniaethus i droseddu.

## EIN GWERTHOEDD: NI AR EIN GORAU

- Rydym yn falch o ddiogelu
- Mae pobl yn bwysig i ni
- Un BTP ydym
- Rydym yn gwneud y peth cywir
- Rydym yn ymdrechu i fod yn well bob dydd



# Ein Hamcanion Strategol



## AS1. Byddwn yn atal y troseddau mwyaf difrifol ac yn amddiffyn y rhai sydd ein hangen fwyaf.

- Targedu'r troseddau mwyaf difrifol drwy blismona rhagweithiol, wedi'i arwain gan cudd-wybodaeth
- Ymgorffori diogelu fel busnes craidd i bawb
- Defnyddio ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n gweithio
- Cryfhau fforenseg ddigidol, integreiddio teledu cylch cyfyng a'r gallu i reoli troseddwyr
- Gwella cyfathrebu drwy systemau sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr sy'n cadw pobl yn wybodus ac yn dawel eu meddwl.

## AS2. Byddwn yn cyflymu ein hymdrechion i leihau aflonyddwch, gan gadw'r rheilffordd i symud.

- Defnyddio cudd-wybodaeth amser real a rhannu'n gyflym er mwyn ymateb yn gynt
- Cryfhau gallu symudol er mwyn i ni weithredu'n gyflym lle bo angen
- Dileu aflonyddwch drwy weithio mewn partneriaeth
- Gwella cydlynu canolog gyda'r diwydiant i alluogi cydweithio
- Ymgorffori adborth cymunedol i gryfhau tryloywder ac atebolrwydd.

## AS3. Byddwn yn cryfhau ein presenoldeb amlwg ac yn gwella cydgysylltu gwell drwy blismona a diogelwch rheilffyrdd integredig.

- Integreiddio gorchymyn a rheolaeth i gryfhau cydgysylltu a gweithio mewn partneriaeth
- Cynyddu presenoldeb amlwg a hyder y cyhoedd drwy batrolau cydlynol a chydweithio cryfach
- Cydweithio â phartneriaid i ddylunio a chyflwyno hyfforddiant sy'n gosod y safon ar gyfer achredu diogelwch
- Defnyddio Parthau Rheilffordd Mwy Diogel i atal troseddau yn y gymuned ac amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed
- Integreiddio cuddwybodaeth a thechnoleg i darfu ar droseddu.

## AS4. Byddwn yn adeiladu gweithlu modern a chynhwysol wedi'u paratoi'n dda, eu hyfforddi'n dda, eu harwain yn dda ac sy'n cael gofal da.

- Cynllunio gweithlu sy'n addas ar gyfer plismona modern
- Hyrwyddo arweinyddiaeth ddewr a diwylliant o berthyn
- Darparu cymorth llesiant rhagweithiol i'n holl bobl
- Ymgorffori dysgu parhaus i feithrin swyddogion a staff dibynadwy

## AS5. Byddwn yn cynyddu cynhyrchiant drwy arloesi, data a thechnoleg – gan yrru effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

- Defnyddio adnoddau digidol sy'n gwneud timau sy'n symud yn fwy effeithlon ac effeithiol
- Defnyddio penderfyniadau wedi'u cymell gan ddata i ganolbwyntio'r ymdrech lle bydd yn cael yr effaith fwyaf
- Defnyddio amserlennu ac awtomeiddio mwy craff i ryddhau amser a galluoedd
- Meithrin gallu arloesi ar draws yr Heddlu cyfan – gan gynnwys asiantau deallusrwydd artiffisial i wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd

# Ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig

| | | 26/27 | 27/28 | 28/29 |
|---|---|---|---|---|
| | | £m | £m | £m |
| **Gwariant** | | **445.250** | **471.323** | **483.042** |
| Ariennir gan: | PSA | -318.740 | -337.406 | -345.794 |
| | TFL | -99.070 | -104.872 | -107.479 |
| | Cytundebau ESPA a Grantiau | -27.440 | -29.047 | -29.769 |
| **CYFANSWM YR INCWM** | | **-445.250** | **-471.324** | **-483.042** |



# Ein Glasbrint ar gyfer Cyflawni

| AS1. Byddwn yn atal y troseddau mwyaf difrifol ac yn amddiffyn y rhai sydd ein hangen fwyaf. | AS2. Byddwn yn cyflymu ein hymdrechion i leihau aflonyddwch, gan gadw'r rheilffordd i symud. | AS3. Byddwn yn cryfhau ein presenoldeb amlwg ac yn gwella cydgysylltu gwell drwy blismona a diogelwch rheilffyrdd integredig. | AS4. Byddwn yn adeiladu gweithlu modern a chynhwysol wedi'u paratoi'n dda, eu hyfforddi'n dda, eu harwain yn dda ac sy'n cael gofal da. | AS5. Byddwn yn cynyddu cynhyrchiant drwy arloesi, data a thechnoleg – gan yrru effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. |
|---|---|---|---|---|

| | Blwyddyn 1 (2026-27) | | | Blwyddyn 2 (2027-28) | | | Blwyddyn 3 (2028-29) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PROSES | Mae aflonyddwch wedi'i ddileu ar y cyd â phartneriaid gan ddefnyddio egwyddorion Atal Troseddau Trwy Ddylunio Amgylcheddol (CPTED). | AS2. | B | Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn gweithredu fframwaith ymateb safonol i darfu ar gyfer pob gweithredwr. | AS2. | B | Mae ymdriniaeth Tu Hwnt i'r Llinell Weld (BVLOS) yn galluogi defnydd ar unwaith i ddigwyddiadau tarfu ar y brif linell. | AS2. | B \| IP |
| | Defnyddir technoleg adnabod wynebau ôl-weithredol i wella diogelu a chanfod troseddwyr. | AS1. | B | Caiff egwyddorion Ymgyrch Soteria eu hymgorffori ar draws ymchwiliadau i drais yn erbyn menywod a merched ac aflonyddu rhywiol. | AS1. | B | Mae prosesau cuddwybodaeth integredig yn galluogi swyddogion a phartneriaid i wasanaethu gwybodaeth eu hunain. | AS1.<br>AS3. | IP \| IN |
| | Caiff yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ei ystyried fel Heddlu blaenllaw wrth dargedu troseddwyr sy'n defnyddio'r rhwydwaith trafnidiaeth i gamfanteisio ar y rhai sy'n agored i niwed. (Llinellau Cyffuriau, Trais yn erbyn menywod a merched*). | AS1. | B | Mae Adnabod Wynebau Byw wedi'i ymgorffori mewn busnes fel arfer. | AS1. | IP | Mae gweithrediadau ac ymchwiliadau byw yn cael eu galluogi gan fynediad gwell at ddeunydd fideo teledu cylch cyfyng drwy'r rhaglen uwchraddio teledu cylch cyfyng genedlaethol. | AS1.<br>AS2.<br>AS3. | BAU (SR25) |
| | Caiff pob rôl ei mapio yn erbyn y Fframwaith Seicolegol fel y gellir darparu cymorth wedi'i dargedu | AS4. | IP | Caiff dewisiadau cyflenwi shifftiau eu cofnodi drwy ryngwyneb symudol ac mae rhybuddion amser real yn nodi bylchau mewn shifftiau. | AS5.<br>AS4. | B | Caiff y defnydd o Ddatrysiadau Tu Allan i'r Llys ei ehangu i gyfrannu at ymyriad cynharach a chanlyniadau gwell i ddioddefwyr. | AS1. | B |
| | Cofnodir gostyngiadau o ran anghymesuredd a lefelau uwch o ymddiriedaeth. | AS4. | B | Mae Fframwaith y Golau Glas, sef safon y Coleg Plismona ar gyfer Iechyd Galwedigaethol, wedi'i gyflawni ac rydym wedi cymryd rhan yn y gwaith o roi Rhaglen Newid ar waith gyda'r Coleg. | AS4. | B | Ceir amcanion a rennir a fframweithiau perfformiad a rennir rhwng yr heddlu a diogelwch. | AS3. | B |
| | | | | Mae manteision cynhyrchiant sy'n gysylltiedig â buddsoddi wrth alluogi data a thechnoleg wedi'u cyflawni i raddau helaeth. | AS4. | IN | Mae protocol atgyfeiriadau bregusrwydd y cytunwyd arno yn genedlaethol ar waith gyda phob heddlu. | AS1. | B |
| | | | | | | | Mae'r Cod Moeseg wedi'i wreiddio yn ein ffyrdd o weithio ac yn cefnogi ein model diwylliant ac arweinyddiaeth. | AS4. | B |
| | | | | | | | Mae dull partneriaeth wedi cryfhau gweledigaeth rheilffyrdd ac wedi gwella cydlyniad. | AS3. | IN \| IP |

*Violence against women and girls

| | Blwyddyn 1 (2026-27) | | | Blwyddyn 2 (2027-28) | | | Blwyddyn 3 (2028-29) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SEFYDLIAD | Mae cymhwysedd arbenigol yn mynd i'r afael â throseddau rhywiol difrifol. | AS1. | B | Mae pob maes gwasanaeth fforensig yn cael achrediad llawn ar gyfer safonau ansawdd ISO. | AS1. | B | Caiff Staff Rheilffordd Achrededig eu cydnabod. | AS3. | B |
| | Mae galluoedd ar-lein arbenigol yn targedu mwy o droseddwyr rhyw sy'n gweithredu ar rwydweithiau'r rheilffyrdd. | AS1. | B | Mae Canolfan Genedlaethol Cydlynu Aflonyddwch wedi ymgorffori Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yng ngweithrediadau'r diwydiant rheilffyrdd. | AS2. | B | Cyflwynir Ymgysylltu â'r Gymuned ar y cyd rhwng yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a phartneriaid. | AS3. | B |
| | Mae'r Academi Troseddau yn sicrhau cymhwysedd galwedigaethol parhaus ein hymchwilwyr. | AS1. | B | Caiff Comanderiaid Gweithredol Ymateb i Darfu eu lleoli mewn safleoedd digwyddiadau mawr o darfu, gan alluogi cydlyniad â Network Rail a phartneriaid golau glas ar y safle. | AS2. | B | Mae ein harweinyddiaeth yn adlewyrchu ein cymunedau yn fwy gyda strategaethau recriwtio, cynllunio olyniaeth a chadw cynhwysol wedi'u hymgorffori ar bob lefel. | AS4. | B |
| | Defnydd gwell o'r Hwb Data sy'n cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau. | AS5. | B | Mae Cynllun Achredu Diogelwch Rheilffyrdd (RSAS) wedi'i adnewyddu yn gosod y safonau ar gyfer cymhwysedd a chymhwyso pwerau ar draws y rhwydwaith. | AS3. | B | Mae cydleoliad ffisegol a/neu rithwir o reolaeth effeithlon ac effeithiol rhwng yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a diogelwch rheilffyrdd. | AS3. | IP \| IN |
| | Mae'r Rhaglen Arloesi yn tyfu syniadau o'r prawf o gysyniad. | AS5. | B \| IN | Mae newidiadau i'r gweithlu a newidiadau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau sy'n gysylltiedig â'r strategaeth effeithlonrwydd wedi'u nodi a'u cyflawni. | AS5. | B | Mae swyddogion a staff yn cael gweld cynlluniau llesiant ac adferiad personol. | AS4. | IP |
| | Mae ein hyfforddiant yn ymgorffori arfer gorau, dysgu ac adborth cymunedol. | AS4. | B | Mae'r Prosiect Plismona a Diogelwch Unedig yn cynnwys adborth gan deithwyr a'r diwydiant. | AS3. | B | Mae ein hystad yn adlewyrchu anghenion gweithlu plismona modern. | AS4. | IP |
| | Mae Parthau Rheilffyrdd Diogel, mewn ardaloedd uchel o ran niwed, wedi'u sefydlu mewn partneriaeth â gweithredwyr trenau. | AS3. | B | | | | Mae swyddogion a staff rheng flaen wedi'u hyfforddi i gyfathrebu'n hyderus, gyda datblygiad proffesiynol mewn gostwng achosion o wrthdaro, a hynny gyda chymorth asesiadau sy'n seiliedig ar senarios. | AS4. | IP |
| | Caiff bylchau cyflog yn ymwneud â rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd eu lleihau. | AS4. | B | | | | Mae'r effeithlonrwydd ariannol sy'n ofynnol gan setliad y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) wedi'i gyflawni'n llawn. | AS5. | B |
| | Mae ein harweinwyr yn gweithredu'n ddewr, yn ysgogi eraill ac yn arddangos ein gwerthoedd. | AS4. | B | | | | Mae Adnoddau Deallusrwydd Artiffisial yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus ein pobl a'n galluoedd. | AS5. AS4. | B \| IN \| IP |
| | | | | | | | Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn darparu dull gweithio hyblyg sy'n sicrhau cydnerthedd gweithredol wedi'i gydbwyso yn erbyn ein hymrwymiad i fod yn gyflogwr modern a chynhwysol. | AS4. | B |

| | Blwyddyn 1 (2026-27) | | | Blwyddyn 2 (2027-28) | | | Blwyddyn 3 (2028-29) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TECHNOLEG | Defnyddir asiantau plismona i wirio deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau, gan wella cynhyrchiant a'r penderfyniadau a wneir. | AS5. | IN | Mae Cymhwysiad Partner Intel wedi'i lansio. | AS3. AS1. AS2. | IP | Mae Porth NICHE yn cefnogi gwaith hunanwasanaethu gwybodaeth. | AS1. | IP |
| | Mae Adnodd Stopio a Chwilio Deallusrwydd Artiffisial yn gwella cydymffurfiaeth ac yn lleihau'r baich goruchwylio. | AS5. | IN | Mae Porth Dioddefwyr yn darparu gallu hunanwasanaethu i ddioddefwyr troseddau. | AS1. | IP | Mae Ffeil Achos Digidol yn adeiladu ffeiliau achos i ansawdd gwell. | AS1. | IP |
| | Mae prawf o gysyniad golygu testun awtomataidd wedi'i gyflwyno a'i werthuso. | AS1. AS2. AS5. | IN | Mae sgwrsfotiau sy'n ymateb i ymholiadau arferol ac sy'n cefnogi hunanwasanaeth wrthi'n cael eu datblygu. | AS5. | IN | Mae NICHE 365 yn galluogi pob swyddog i gael mynediad i systemau o bell. | AS5. | IP |
| | Mae peiriant paru deallusrwydd artiffisial prawf o gysyniad sy'n cysylltu ffynonellau data ar wahân i leihau gwaith gwirio â llaw a gwella galluoedd ymchwiliol wedi'i gyflwyno. | AS1. | IN | Caiff y gwaith saernïo data ei wella'n barhaus i wneud y mwyaf o benderfyniadau a gwybodaeth effeithiol. | AS5. | B \| IN | Mae adnoddau symudol yn cefnogi'r broses o adnabod pobl dan amheuaeth. | AS5. | IP |
| | Caiff y broses o gasglu tystiolaeth cyfryngau digidol ei hoptimeiddio drwy seilwaith ciosg newydd. | AS1. | IP | Mae asiantau ar waith ar draws swyddogaethau allweddol i wella cynhyrchiant. | AS5. AS4. | IN | Mae gallu cyflwyno hyfforddiant AI wedi'i dreialu. | AS4. | IN |
| | Prawf o gysyniad cynllunio dyletswyddau rhagweithiol awtomataidd. | AS5. AS4. | IN | Mae awtomeiddio wedi dechrau ymdrin â mewnbynnu data ailadroddus a chydymffurfiaeth. | AS5. | IN | Mae Camera a Wisgir ar y Corff y Diwydiant yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddatrys troseddau ac erlyniadau. | AS3. | B |
| GWYBODAETH | Mae llinell sylfaen o'n gofynion ar gyfer gweithio gyda diwydiant a'r byd academaidd i gefnogi gwerthusiad ein hymyriadau wedi'i phennu. | AS1. AS2. | B | Rhennir dangosfwrdd o achosion tarfu ar ddigwyddiadau â phartneriaid rheilffyrdd. | AS2. | B | Mae systemau gorchymyn a rheoli rhwng plismona a diogelwch yn rhyngweithredol. | AS3. | IP \| IN |
| | Ceir protocolau rhannu data sefydledig gyda'r diwydiant rheilffyrdd i gefnogi sesiynau briffio hunanwasanaeth yn y dyfodol. | AS1. | B | Gwnaethom ddefnyddio gwybodaeth am wyddor ymddygiad i lunio negeseuon cyhoeddus a phrotocolau patrolio. | AS2. | B | Caiff teledu cylch cyfyng y diwydiant ei integreiddio ymhellach trwy gytundebau rhannu data a storfa yn y cwmwl. | AS1. AS3. | B (SR25) |
| | Cyflwynir ymarferion pen bwrdd ar aflonyddwch i brofi parodrwydd a chydnerthedd. | AS2. | B | Wedi gweithio gyda'r diwydiant i gyflawni gweithgaredd atal aflonyddwch lle mae ei angen fwyaf. | AS2. | B | Roedd deallusrwydd artiffisial uwch yn rhagweld galw ac yn cefnogi penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau. | AS5. | B |
| | Caiff adborth teithwyr ei integreiddio mewn adolygiadau ar ôl digwyddiad. | AS2. | B | Mae llunio adroddiadau perfformiad ar oriau patrôl diogelwch ac ymateb yn dangos effeithlonrwydd ac mae ar gael i'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r Diwydiant. | AS3. | B | Optimeiddiwyd ein storfa data trwy'r cwmwl. | AS1. | IP |
| | | | | Mae ansawdd data yn cael ei wella'n ystyrlon. | AS5. | B | | | |
| | Bydd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn adolygu ac yn addasu ei Lasbrint i sicrhau ei fod yn gyson yng nghyd-destun yr Heddlu a Diwygio Rheilffyrdd. | | | | | | | | |

Y Glasbrint yw'r gweithgaredd trawsnewidiol y mae'r Heddlu'n ymgymryd ag ef dros dair blynedd y strategaeth er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei hamcanion. Cynrychiolir pob datganiad fel 'cyflwr terfynol' yn y dyfodol, gan ddangos beth fydd wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn.

Mae hyn yn cynnwys gweithgaredd a wneir fel:

- **(B)** Busnes yn ôl yr Arfer,
- **(IP)** trwy'r Cynllun Buddsoddi, ac
- **(IN)** Mecanwaith Arloesi.